OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 1721

## Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2002

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

nid yw "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yn cynnwys awdurdod iechyd porthladd;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*"), mewn perthynas ag unrhyw ardal iechyd porthladd a gyfansoddwyd trwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Afiechydon) 1984(**1**), yw awdurdod iechyd porthladd ar gyfer yr ardal honno a gyfansoddwyd trwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

ystyr "Cyfarwyddeb 85/591/EEC" ("*Directive 85/591/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 85/591/EEC sy'n ymwneud â chyflwyno dulliau'r Gymuned o samplo a dadansoddi ar gyfer monitro bwydydd y bwriadwyd i bobl eu bwyta(**2**);

ystyr "Cyfarwyddeb 93/99/EEC" ("*Directive 93/99/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 93/99/EEC sy'n ymwneud â mesurau ychwanegol sy'n ymdrin â rheoli bwydydd yn swyddogol (**3**);

ystyr "Cyfarwyddeb 98/53/EC" ("*Directive 98/53/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 98/53/EC sy'n gosod y dulliau samplo a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol y lefelau ar gyfer halogion penodedig mewn bwydydd(**4**)) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/27/EC(**5**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2001/22/EEC" ("*Directive 2001/22/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2001/22/EC sy'n gosod y dulliau samplo a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau plwm, cadmiwm, mercwri a 3-MPCD mewn bwydydd(**6**)) fel y'u cywirwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2001/873/EC(**7**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2002/26/EC" ("*Directive 2002/26/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/26/EC sy'n gosod y dulliau samplo a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau Ochratocsin A mewn bwydydd(**8**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2002/69/EC" ("*Directive 2002/69/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/69/EC sy'n gosod y dulliau samplo a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau deuocsinau a chanfod PCBs o fath deuocsin mewn bwydydd(**9**) fel y'i cywirwyd gan gywiriad a gyhoeddwyd ar 20 Medi 2002(**10**)

(**1**) 1984 (p.22).
(**2**) OJ Rhif L372, 31.12.85, t.50.
(**3**) OJ Rhif L290, 24.11.93, t.14.
(**4**) OJ Rhif L201, 17.7.1998, t.93.
(**5**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.44.
(**6**) OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.14
(**7**) OJ Rhif L325, 8.12.2001, t.34
(**8**) OJ Rhif L252, 20.9.2002, t.40.
(**9**) OJ Rhif L1, 3.1.94, t.3.
(**10**) OJ Rhif L1, 3.1.94, t.37.

ystyr "Cytundeb yr AEE" ("*the EEA Agreement*") yw Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd(**11**)) a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992 fel y'i haddaswyd gan y Protocol(**12**) a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw Gwladwriaeth sy'n Barti Contractio i Gytundeb yr AEE;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 466/2001 sy'n nodi'r lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn bwydydd(**13**)) fel y'i cywirwyd gan gywiriad a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 2001(**14**) ac fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2375/2001(**15**)), Rheoliad Comisiwn (EC) Rhif 221/2002(**16**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 257/2002(**17**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 472/2002(**18**) fel y'i cywirwyd gan gywiriad a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2002(**19**) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 563/2002(f) fel y'i cywirwyd gan gywiriad a gyhoeddwyd ar 14 Mehefin 2002(ff);

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd i'r geiriau cyfatebol yn Rheoliad y Comisiwn.

(**11**) OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.1 fel y'i mabwysiadwyd gan benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 81/2002 (OJ Rhif L266, 3.10.2002, t.30 ac atodiad AEE Rhif 49, 3.10.2002)..

(**12**) OJ Rhif L313, 30.11.2001, t.60 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 81/2002..

(**13**) OJ Rhif L321, 6.12.2001, t.1 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 81/2002.

(**14**) OJ Rhif L37, 7.2.2002, t.4 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 139/2002 (OJ Rhif L19, 23.1.2003, t.3 ac atodiad AEE Rhif 5, 23.1.2003).

(**15**) OJ Rhif L41, 13.2.2002, t.12 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 100/2002 (OJ Rhif L298, 31.10.2002, t.13 ac atodiad AEE Rhif 54, 31.10.2002, t.11).

(**16**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.18, fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 161/2002 (OJ Rhif L38, 13.2.2003, t.16 ac atodiad AAE Rhif 9, 13.2.2003, t.13).

(**17**) OJ Rhif L80, 23.3.2002, t.42.

(**18**) OJ Rhif L86, 3.4.2002, t.5 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 161/2002..

(**19**) OJ Rhif L155, 14.6.2002, t.63 fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 161/2002.